CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Dogfen Ymgynghori

**Ymgynghoriad ar y cynnig i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022 drwy:**

- **Uno Meithrinfa Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode; ac**
- **Uno Meithrinfa Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan.**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau ac ieithoedd cymunedol eraill fel bo angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 700111 i drefnu hyn.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ... **3**

Cyflwyniad ... 4

Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon ... 5

**Y Cynigion** ... **7**

Y cynigion ... 8

Pam ydym ni'n cynnig y newidiadau? ... 8

**Goblygiadau'r Cynigion** ... **11**

Gwybodaeth Ysgol ... 12

Deilliannau Addysgol ... 12

Darpariaeth Gymraeg ... 14

Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ALN) ... 14

Effeithiau ar Addysg y Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion eraill ... 15

Derbyniadau ... 16

Tir ac Adeiladau ... 22

Cyllid ... 22

Adnoddau Dynol ... 23

Cludiant a threfniadau teithio dysgwyr ... 23

**Ystyriaethau Eraill** ... **25**

Manteision addysgol posibl y cynnig hwn o gymharu â'r sefyllfa bresennol ... 26

Anfanteision addysgol posibl y cynnig hwn o gymharu â'r sefyllfa bresennol ... 26

Peryglon posibl y cynnig hwn a chamau i liniaru'r peryglon a ganfuwyd ... 26

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ... 27

Asesiad Effaith ar y Gymuned ... 27

Cyfraniadau i Les Cenedlaethau'r Dyfodol ... 27

Y dewisiadau eraill a ystyriwyd ... 27

**Proses yr Ymgynghoriad Statudol** ... **29**

Proses yr Ymgynghoriad Statudol ... 30

Dyddiadau allweddol ... 31

Cwestiynau a ofynnir yn aml (FAQs) ... 32

**Cynnwys rhanddeiliaid ac ymateb i'r ymgynghoriad** ... **33**

Cynnwys rhanddeiliaid yr ysgol yn yr ymgynghoriad ... 34

Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad ... 34

Sut y gellwch ddod i wybod mwy a mynegi eich barn ... 35

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ... 36

# Cyflwyniad

## Cyflwyniad

**Cefndir**

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn y Fro yn cael pob cyfle i ennill y canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hon mae'n hanfodol inni sicrhau bod ysgolion yn parhau yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, ac yn meddu ar yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Ar 13 Medi 2021, awdurdododd Cabinet y Cyngor Gyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal **ymgynghoriad o 20 Medi 2021 hyd 5 Tachwedd 2021** ar ddau gynnig i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022.

**Y cynigion**

Mae'r ddogfen hon yn egluro **cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022**.

**Cynnig 1: Uno Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode drwy;**

- Newid oedran isaf y disgyblion yn ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 lle meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Evenlode i ddarparu lle ar gyfer y 96 lle meithrin rhan-amser; a
- Dod ag Ysgol Feithrin Bwthyn Bute i ben a throsglwyddo'r holl staff a disgyblion yn y cyfnod meithrin i fod dan lywodraeth Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

**Cynnig 2: Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan drwy;**

- Newid oedran isaf y disgyblion yn ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 lle meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Cogan i ddarparu lle ar gyfer y 96 lle meithrin rhan-amser; a
- Dod ag Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo'r holl staff a disgyblion yn y cyfnod meithrin i fod dan lywodraeth Ysgol Cogan o fis Medi 2022.

Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeiladau presennol gyda'r ddau gynnig.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu hystyried dan adran 2.1 a 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae adran 2.1 yn cyfeirio at gau ysgol a gynhelir. Mae adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig ysgol, sy'n cynnwys newid ystod oedran ysgol o flwyddyn neu ragor.

**Ymateb i'r cynigion**

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgyngoriadau yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn addas i'r cymunedau dan sylw, ac mae dyletswydd o ofal ar y Cyngor i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu'r rhai y byddant yn effeithio arnynt. Gweledigaeth yw hon na ellir ei gwireddu ond drwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym i gyd yn eu gwasanaethu

Rhydd yr ymgynghoriad hwn y cyfle i chi i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cymryd i ystyriaeth pan fydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu sut i symud ymlaen.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch sesiynau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a sut y gellwch chi ymateb i'r ymgynghoriad yn adran "Cynnwys rhanddeiliaid ac ymateb i'r ymgynghoriad" o dudalen 33. Mae'r dudalen hon yn cysylltu â'r arolwg ar-lein ac mae'n cynnwys ffurflen ymateb os bydd arnoch eisiau cyflwyno ymateb drwy'r post.

**Mae'n hanfodol i unrhyw adborth ddod i law erbyn 5 Tachwedd 2021 i gael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni ellir rhoi ystyriaeth i unrhyw eitemau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw.**

## Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

**'Uno'** – Y broses o gyfuno'r cyfnodau meithrin a chynradd yn un ysgol gydag un corff llywodraethu.

**'AN'** (Nifer Derbyn) – Rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion i fyny i'r nifer derbyn a gyhoeddwyd. Y nifer derbyn yw nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

**'ADY'** (Anghenion Dysgu Ychwanegol) – Mae gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster neu anabledd dysgu (p'un a yw'r anhawster neu anabledd dysgu'n codi o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ychwanegol.

**'Capasiti'** – Capasiti ysgol yw cyfanswm y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn yr oed statudol; mae'n gadael allan leoedd meithrin.

**'Dalgylch'** – Y dalgylch yw'r ardal ddaearyddol y mae myfyrwyr yn gymwys i fynychu ysgol leol ohoni. Bydd plant y dalgylch bob amser yn cael blaenoriaeth dros geisiadau o'r tu allan i'r dalgylch. Fodd bynnag, nid oes gwarant y caiff unrhyw blentyn ei dderbyn i'r ysgol o'i ddewis.

**'Cymunedol'** – Math o ysgol sy'n cael ei chynnal gan y wlad lle mae'r awdurdod addysg lleol yn cyflogi staff yr ysgol, yn gyfrifol am y derbyniadau i'r ysgol ac yn berchen ar ystad yr ysgol.

**'Enwadol'** – Ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig, e.e. yr Eglwys yng Nghymru.

**'Dirwyn i ben'** – Yn dilyn uno'r cyfnod meithrin a chynradd yn un ysgol gynradd ni fyddai angen ysgol feithrin ar wahân mwyach.

**'DC'** (Deddf Cydraddoldeb) – Mae'r ddeddf yn cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd ysgol yn ymwneud a'r modd y mae ysgol yn trin disgyblion a darpar ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, cyflogeion, ac aelodau o'r gymuned. Rhaid i bob dim y mae ysgol yn ei wneud fod yn deg, heb wahaniaethu a heb roi unigolion neu grwpiau o bobl dan anfantais. Yn neilltuol, rhaid i ysgol beidio â gwahaniaethu, aflonyddu ar ddisgybl neu wneud cam â disgybl neu ddarpar ddisgybl o ran; derbyniadau, y ffordd y mae'n darparu addysg i'r disgyblion, sut y mae'n caniatáu mynediad i ddisgyblion at unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth, a chau disgybl allan neu achosi anfantais arall iddo.

**'AEC'** (Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb) – Proses yw AEC sydd wedi ei bwriadu i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gwarchodedig.

**'CS'** (Cyfrwng Saesneg) –Ysgol lle mae'r addysgu a'r dysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf.

**'FTE'** (Cyfateb i Lawn Amser) – Disgyblion sy'n mynychu lleoliad addysg yn llawn amser.

**'ALl'** (Awdurdod Lleol) – Yr Awdurdod Lleol y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yw Cyngor Bro Morgannwg oni ddywedir fel arall.

**'NOR'** (Nifer ar y Gofrestr) – Nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol. Nid yw lleoedd meithrin wedi eu cynnwys.

**'PLASC'** (Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion ar Lefel Disgyblion) – Ym mis Ionawr bob blwyddyn, cesglir gwybodaeth wedi ei dilysu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hon yn cynnwys nifer y disgyblion sydd ar gofrestr pob ysgol, eu grŵp oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ar y Gymraeg, cymhwystra i dderbyn cinio ysgol am ddim, anghenion addysg arbennig ac iaith gyntaf.

**'SA'** (Gweithredu gan yr Ysgol) – Pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc yn nodi bod gan ddisgybl ADY bydd yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rheiny a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.

**'SA+'** (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy) - Pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc a Chydlynydd Anghenion Ychwanegol yn derbyn cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, fel bod modd rhoi ymyriadau yn eu lle sy'n wahanol neu ychwanegol i'r rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl drwy SA.

**'CAA'** (Canolfan Adnoddau Arbenigol) – Cyfleuster o fewn yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig.

**'Testun datganiad'** – Mae gan blentyn Ddatganiad o Angen Addysgol (DAA), a adwaenir fel arall fel ADY, os oes ganddo anawsterau dysgu sy'n golygu bod angen gwneud darpariaeth addysg arbennig ar ei gyfer. Mae anhawster dysgu yn golygu bod gan y plentyn anhawster sylweddol fwy mewn dysgu na'r mwyafrif o blant o'r un oedran neu bod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am gyfleusterau addysgol gwahanol i'r rheiny y mae'r ysgol yn eu darparu'n gyffredinol.

**'CC'** (Cyfrwng Cymraeg) – Ysgol  lle mae'r addysgu a'r dysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf.

# Y Cynigion

## Y cynigion

**Crynodeb**

**Cynnig 1: Uno Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode drwy;**

- Newid oedran isaf y disgyblion yn ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 lle meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Evenlode i ddarparu lle ar gyfer y 96 lle meithrin rhan-amser; a
- Dod ag Ysgol Feithrin Bwthyn Bute i ben a throsglwyddo'r holl staff a disgyblion yn y cyfnod meithrin i fod dan lywodraeth Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

**Cynnig 2: Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan drwy;**

- Newid oedran isaf y disgyblion yn ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 lle meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Cogan i ddarparu lle ar gyfer y 96 lle meithrin rhan-amser; a
- Dod ag Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo'r holl staff a disgyblion yn y cyfnod meithrin i fod dan lywodraeth Ysgol Cogan o fis Medi 2022.

Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeiladau presennol gyda'r ddau gynnig.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu hystyried dan adran 2.1 a 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae adran 2.1 yn cyfeirio at gau ysgol a gynhelir. Mae adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig ysgol, sy'n cynnwys newid ystod oedran ysgol o flwyddyn neu ragor.

**Beth fyddai hyn yn ei olygu?**

Byddai Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu dirwyn i ben a châi'r holl staff a'r disgyblion o'r cyfnodau meithrin eu trosglwyddo dan lywodraeth Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu yn yr adeiladau presennol gyda'r ddau gynnig.

Ceir mwy o wybodaeth am Raglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain y Cyngor ar wefan y Cyngor: **www.valeofglamorgan.gov.uk/21st-Century-Schools**

## Pam ydym ni'n cynnig y newidiadau?

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel addysg ysgol gynradd 3 i 11 mlwydd oed. Mae hyn wedi cynnwys uno ysgolion babanod ac ysgolion iau, megis Ysgol Gynradd Dinas Powys ac Ysgol Gynradd Sant Helen, yn ogystal ag uno darpariaeth feithrin a chynradd ar wahân, megis Ysgol Gynradd Tregatwg.

Mae Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn ddwy o bedair ysgol gynradd nad ydynt ar hyn o bryd yn cynnig darpariaeth feithrin. Yr ysgolion cynradd eraill nad oes ganddynt ddarpariaeth feithrin yw Ysgol Gynradd Llancarfan ac Ysgol Gynradd Sant Nicholas.

Ar 18 Mawrth 2019, cymeradwyodd y Cabinet y cynnig i ad-drefnu darpariaeth yng ngorllewin y Fro, fyddai'n gweld sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Llancarfan o fis Medi 2021. At

hynny, ar 23 Medi 2019, cymeradwyodd y Cabinet y cynnig i sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Nicholas.

Yn dilyn gweithredu'r cynigion uchod, Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan fydd yr ysgolion cynradd diwethaf ar ôl ym Mro Morgannwg nad oes ganddynt ddarpariaeth feithrin.

Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yw'r unig ysgolion meithrin annibynnol yn y Fro; h.y. endidau ar wahân gyda'u cyrff llywodraethu eu hunain a chyllideb ddirprwyedig.

Mae Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Evenlode ac mae Ysgol Feithrin Cogan yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Cogan.

Mae'r ddwy ysgol feithrin ar hyn o bryd yn cael eu rheoli gan bennaeth a chorff llywodraethu ac yn derbyn cyllideb ar wahân gan y Cyngor. Daeth swydd y pennaeth yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yn wag ar ddiwedd Awst 2019 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei chyflawni drwy drefniant dros dro. Daeth swydd pennaeth Ysgol Feithrin Cogan yn wag ar ddiwedd Awst 2021 a bydd yn cael ei chyflawni am flwyddyn drwy drefniant dros dro gydag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin tra'n osgoi diswyddiadau gorfodol.

Yn 2021/22, derbyniodd Ysgol Feithrin Bwthyn Bute gyllideb o £286,292 i gyd, sy'n gymaint â £6,983 y disgybl (FTE). Derbyniodd Ysgol Feithrin Cogan gyllideb o £280,829 i gyd, sy'n gymaint â £7,590 y disgybl (FTE). Mae swm y cyllid fesul disgybl yn sylweddol uwch na'r cyllid cyfartalog fesul disgybl ar draws yr holl ysgolion cynradd oedd yn £3,804 yn 2021/22. Mae'r cyllid fesul disgybl yn gyffredinol uwch mewn ysgolion meithrin annibynnol oherwydd costau staffio uwch a chostau rhedeg yr ysgolion.

Cynigir uno Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bwthyn Bute fyddai'n arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan amser yn Ysgol Gynradd Evenlode (ar safle Ysgol Feithrin bresennol Bwthyn Bute). Cynigir hefyd uno Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Feithrin Cogan, fyddai'n arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan amser yn Ysgol Gynradd Cogan (ar safle Ysgol Feithrin bresennol Cogan). Byddai hyn yn datblygu parhad a dilyniant yn addysg plant o dair blwydd oed ymlaen. Byddai'n sicrhau dull cyson o gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) ac yn lleihau'r posibilrwydd o anesmwythyd yn ystod y trosglwyddiad o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Byddai cyflwyno polisïau, strategaethau ac addysgeg gyson ar draws pob oedran yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos gyffredin sy'n cael ei deall gan y plant, y rhieni a'r gofalwyr drwy bob cyfnod o addysg gynradd. Byddai'r cynnig hefyd yn gymorth i sicrhau dull cydlynol o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen.

Byddai un tîm arweiniol ac un corff llywodraethol ar draws pob ysgol yn dileu ailadrodd swyddogaethau rheoli a llywodraethu. Er enghraifft, caiff yr ysgolion meithrin annibynnol eu harolygu gan Estyn ar hyn o bryd ac mae'n rhaid iddynt ddychwelyd ffurflenni data ar wahân i'r Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De a Llywodraeth Cymru. Byddai symleiddio'r swyddogaethau rheoli a llywodraethu, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, yn arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol. Byddai'r ysgolion cyfunol yn ei gwneud yn haws ymgysylltu â rhieni yn enwedig pan fydd ganddynt blant yn yr oed meithrin a'r oed cynradd. Ni fyddai angen i'r rhieni ddod yn gyfarwydd â mwy nag un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau.

Pe câi'r cynnig ei roi ar waith, byddai Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn

derbyn cyllideb unigol bob un gan gynnwys dyraniadau ar gyfer y cyfnod meithrin. Gan fod y rhan fwyaf o gyllid ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr, byddai’r cynigion yn gwella sefyllfa’r gyllideb yn gyffredinol i Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan. Mae Ysgol Gynradd Evenlode ar hyn o bryd yn derbyn y lefel isaf o gyllid y disgybl ar draws holl ysgolion y Fro. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg darpariaeth feithrin. Byddai’r cynigion yn golygu gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol ar draws yr holl ysgolion. Mae ysgolion mawr hefyd ar y cyfan yn gallu sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion maint. Byddai’r cynnig yn arbed oddeutu £140 mil y flwyddyn.

**Mesurau Trosglwyddo**

Byddai’r Cyngor yn rhoi cymorth llawn i staff a llywodraethwyr yr ysgolion unigol drwy gydol datblygiad y cynigion. Pe câi’r cynigion eu cymeradwyo, byddai’r Cyngor yn gweithio’n agos gyda’r staff a’r llywodraethwyr i ddatblygu cynllun trosglwyddo cynhwysfawr.

Er y byddai cyrff llywodraethu Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu diddymu o fis Medi 2022, byddai’r Cyngor yn gweithio gyda chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan i ganfod cyfleoedd i lywodraethwyr drosglwyddo er mwyn sicrhau parhad.

Byddai angen i gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan newid eu cylch gorchwyl a’u strwythur i adlewyrchu cynnwys y cyfnod meithrin.

# Goblygiadau'r Cynigion

## Gwybodaeth Ysgol

Mae'r adran sy'n dilyn yn trafod goblygiadau'r cynnig, gan gynnwys deilliannau addysgol, cyllid, adnoddau dynol a chludiant.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth am yr ysgol i fod o gymorth wrth ystyried y goblygiadau posibl hyn. Mae'r ddogfen Gwybodaeth Ysgol yn cynnwys arolygiad diweddaraf Estyn ac asesiadau mewnol ar gyflwr ac addasrwydd adeiladau Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan.

Gellir gweld y ddogfen Gwybodaeth Ysgol drwy'r cyswllt canlynol:
**www.valeofglamorgan.gov.uk/nurseryprovisionpenarth**

## Deilliannau Addysgol

**Safonau a chynnydd**

Fe wnaeth arolygiad diweddaraf Estyn ar yr ysgolion nodi bod Safonau'n 'Dda' yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, ac Ysgol Gynradd Cogan, ac yn 'Ardderchog' yn Ysgol Feithrin Cogan. Nodir yn yr adroddiadau arolygu bod yr holl ddisgyblion, yn cynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda.

Pe caent eu cymeradwyo, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o safon uchel. Byddai uno yn ei gwneud yn bosibl cyfuno'r cryfderau sy'n bresennol yn yr ysgolion meithrin a chynradd sydd ar wahân i gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel, yn gweithredu ar draws safleoedd ar wahân. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl rhannu arweinyddiaeth a gweledigaeth gan sefydlu cwricwlwm cyson a chydlynol yn llawn ar draws y cyfnod cynradd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Nodai arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgolion fod Lles yn 'Dda' yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, ac Ysgol Gynradd Cogan, ac yn 'Ardderchog' yn Ysgol Feithrin Cogan. Nodir yn yr adroddiadau arolygu bod gan y disgyblion i gyd bron ddealltwriaeth sicr o sut i gadw'n ddiogel ac iach a chymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgaredd corfforol. Mae'r plant i gyd bron yn ymwneud yn dda â'i gilydd ac ag oedolion ac yn dysgu ystod dda o sgiliau personol a chymdeithasol. Mae'r disgyblion yn ymroi i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol drwy bwyllgorau a phrosiectau.

Pe caent eu cymeradwyo, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu ar gyfer lles disgyblion o fewn amgylcheddau addysgol gofalgar. Byddai'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau i gael ei nodi'n fuan. Byddai'r cynnig yn gymorth i sicrhau dull cydlynol o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen.

**Profiadau Addysgu a Dysgu**

Nodai arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgolion fod Profiadau Addysgu a Dysgu yn 'Dda' yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, ac Ysgol Gynradd Cogan, ac yn

‘Ardderchog’ yn Ysgol Feithrin Cogan. Nodir yn yr adroddiadau arolygu bod gan yr athrawon wybodaeth bwnc dda, bod y rhieni’n gwybod llawer am gynnydd eu plentyn, a bod y lleoliadau yn darparu cwricwlwm sy’n cwrdd ag anghenion y disgyblion.

Pe caent eu cymeradwyo, byddai’r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o safon uchel. Mae’r cynigion yn hwyluso athroniaeth addysg gyson ar gyfer y plant am hyd at 9 o flynyddoedd di-dor o addysg ac felly’n lleihau’r posibilrwydd o darfu arnynt yn ystod y trosglwyddiad o’r meithrin i’r cynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Nodai arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgolion fod Gofal, Cymorth ac Arweiniad yn ‘Dda’ yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode, ac yn ‘Ardderchog’ yn Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan. Nodir yn yr adroddiadau arolygu bod y lleoliadau’n darparu cymuned ofalgar gyda pherthynas waith dda rhwng rhanddeiliaid addysgol, y rhieni a’r gymuned, a bod anghenion unigol disgyblion yn cael eu canfod yn gynnar.

Pe caent eu cymeradwyo, byddai’r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu ar gyfer lles y disgyblion mewn amgylcheddau addysgol gofalgar.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Nodai arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgolion fod Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn ‘Dda’ yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode, ac yn ‘Ardderchog’ yn Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan. Nodir yn yr adroddiadau arolygu bod y lleoliadau’n rhannu arferion da gyda darparwyr lleol eraill, bod yr uwch dimau arwain yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol, a bod y cyrff llywodraethu yn wybodus ynghylch cynlluniau’r ysgol a sut y cânt eu monitro.

Pe caent eu cymeradwyo, byddai’r cynigion hyn yn golygu bod staff Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn trosglwyddo i fod dan lywodraeth cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno.

Byddai’r Cyngor yn rhoi cymorth llawn i staff a llywodraethwyr yr ysgolion unigol drwy gydol datblygiad y cynigion. Pe câi’r cynigion eu cymeradwyo, byddai’r Cyngor yn gweithio’n agos gyda’r staff a’r llywodraethwyr i ddatblygu cynllun trosglwyddo cynhwysfawr.

Er y byddai cyrff llywodraethu Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu diddymu o fis Medi 2022, byddai’r Cyngor yn gweithio gyda chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan i ganfod cyfleoedd i lywodraethwyr drosglwyddo er mwyn sicrhau parhad.

Byddai angen i gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan newid eu cylch gorchwyl a’u strwythur i adlewyrchu cynnwys y cyfnod meithrin.

Byddai cyrff llywodraethu diwygiedig Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn gyfrifol am ddiwygio’u strwythurau staffio i adlewyrchu ychwanegu’r cyfnod meithrin. Ni ddisgwylir y byddai yna unrhyw ddiswyddiadau gorfodol o ganlyniad i’r cynigion hyn. Fodd bynnag, byddai unrhyw newidiadau a gynigid i’r staffio yn destun ymgynghoriad llawn gyda’r staff a’r undebau llafur perthnasol lle bo angen.

Byddai un tîm arweiniol ac un corff llywodraethol ar draws pob ysgol yn dileu ailadrodd swyddogaethau rheoli a llywodraethu. Er enghraifft, caiff yr ysgolion meithrin annibynnol eu harolygu gan Estyn ar hyn o bryd ac mae'n rhaid iddynt ddychwelyd ffurflenni data ar wahân i'r Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De a Llywodraeth Cymru. Byddai symleiddio'r swyddogaethau rheoli a llywodraethu, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, yn arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol. Byddai'r ysgolion cyfunol yn ei gwneud yn haws ymgysylltu â rhieni yn enwedig pan fydd ganddynt blant yn yr oed meithrin a'r oed cynradd. Ni fyddai angen i'r rhieni ddod yn gyfarwydd â mwy nag un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau.

## Darpariaeth Gymraeg

Mae Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP), sy'n anelu at sicrhau y gellir cwrdd â'r galw am addysg gyfrwng Cymraeg yn y tymor hir, yn unol â strategaeth Genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu i'r targed uchelgeisiol o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ysgol Pen-Y-Garth sy'n cynnig darpariaeth gynradd gyfrwng Cymraeg yn ardal Penarth. Mae gan yr ysgol le ar gyfer 420 o ddisgyblion cynradd a 76 o leoedd meithrin rhan-amser.

Mae Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yn ymrwymedig i helpu disgyblion i ddatblygu eu haddysg iaith Gymraeg o oedran cynnar. Mae hyn yn cynnwys drwy fasgot Cymraeg o'r enw Dewi Draig sy'n cynorthwyo'r plant i ddeall a defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Mae  Dewi hefyd yn helpu disgyblion i ddysgu am ddiwylliant Cymru a beth y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd Cymreig. Mae gan y feithrinfa grysau-T Helpwr Heddiw sy'n cael eu rhoi i ddisgyblion i'w gwisgo fel gwobr pan glywir hwy'n defnyddio geiriau Cymraeg yn y feithrinfa. Mae'r feithrinfa'n gweithio tuag at ennill Gwobr Efydd Gymraeg y Siarter Iaith.

Mae Ysgol Feithrin Cogan yn ymrwymedig i helpu disgyblion i ddatblygu eu haddysg iaith Gymraeg o oedran cynnar. Caiff sgiliau eu datblygu drwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau cynlluniedig difyr ac ymarferol a defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn eu cynyddu. Mae'r disgyblion yn gwrando ar amrediad o ysgogiadau, yn cynnwys deunydd clyweled a meddalwedd ryngweithiol TGCh.

Er mai drwy gyfrwng y Saesneg y mae Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn addysgu'n bennaf, mae'r safonau uchel a gyrhaeddir yn Gymraeg yn cyfrannu i ymrwymiad y Cyngor i annog siaradwyr dwyieithog.

## Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ALN)

Rhydd y tablau canlynol wybodaeth am anghenion disgyblion o PLASC mis Ionawr 2021.

| Tabl 1 – Amlinelliad o anghenion ADY disgyblion yn yr ysgolion a'r meithrinfeydd a chymhariaeth gyda'r lefel ranbarthol (cynradd) a'r lefel genedlaethol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math** | **Ysgol Gynradd Evenlode** | **Meithrinfa Bwthyn Bute** | **Ysgol Gynradd Cogan** | **Meithrinfa Cogan** | **Bro Morgannwg (cynradd)** | **Cymru (all*)** |
| Gweithredu gan yr Ysgol | 0% | 0% | 12% | 3% | 6% | 12% |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 3% | 1% | 8% | 6% | 5% | 7.4% |
| Ar ddatganiad | 0% | 0% | 1% | 2% | 1% | 2.8% |

*Mae'r ffigurau Cymru Gyfan ar gyfer yr holl ysgolion. Nid oes dadansoddiad i'r sectorau cynradd ac uwchradd ar gyfer ffigurau ADY Cymru Gyfan ar gael ar hyn o bryd.

Fel y dengys y tabl uchod, mae gan Ysgol Gynradd Cogan fwy na'r cyfartaledd o ddisgyblion 'Gweithredu gan yr Ysgol' a 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' ar ei chofrestr na chyfartaledd y Fro, ac mae gan Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode lai na'r cyfartaledd ar draws yr holl fesurau.

Nid oes gan Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode nac Ysgol Feithrin Cogan ganolfan adnoddau arbenigol yn gysylltiedig; darperir cymorth arbenigol i'r plant sydd ag anghenion a ganfuwyd mewn man cynhwysol o fewn yr ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Cogan yn darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag anawsterau clywed drwy Ganolfan Adnoddau Clyw. Mae'r tîm yn cynnwys athro arbenigol a staff cynorthwyol sy'n helpu'r plant â byddardod o ganolig i fyddardod llwyr. Mae'r plant yn cael cymorth arbenigol ac maent wedi eu hintegreiddio'n llwyr i arferion dyddiol yr ysgol. Fel y nodwyd yn eu harolygiad Estyn diweddaraf, *'Mae disgyblion o'r ganolfan adnoddau yn blodeuo ochr yn ochr â'r disgyblion eraill. Maent yn gwneud cynnydd da, ac ardderchog yn aml, o'u mannau cychwyn unigol. Mae staff arbenigol yn gweithio'n hynod o effeithiol gyda'u cydweithwyr prif ffrwd a gydag ystod o wasanaethau arbenigol i sicrhau darpariaeth eithriadol ar gyfer y disgyblion hyn.'*

Mae'r lleoliadau addysgol yn darparu cwricwlwm wedi ei dargedu ac un pwrpasol sy'n ymateb i alluoedd y plentyn unigol ac yn sicrhau bod y plant i gyd sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ar draws pob maes yn y cwricwlwm.

Gallai ysgol gynradd gyda meithrinfa fod yn fanteisiol i ddisgyblion ADY a staff cefnogi gan fod hyn yn gwneud parhad darpariaeth yn bosibl o oedran ifanc.

## Effeithiau ar Addysg y Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion eraill

Mae'n annhebygol y caiff y cynigion effaith o bwys ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol gan nad oes newid yn cael ei gynnig yn y dalgylch presennol (gweler ffigurau 1-2 yn yr adran dderbyniadau isod).

Nid oes darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode nac Ysgol Gynradd Cogan ar hyn o bryd. Caiff plant fynd i ddarpariaeth feithrin yn unedau meithrin ysgolion eraill neu gyda darparwr cofrestredig.

Byddai **Cynnig 1** yn arwain at 96 lle meithrin cyfrwng Saesneg rhan-amser yn Ysgol Gynradd Evenlode. Mae hyn yr un fath ag sydd ar gael yn awr yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute.

Mae Meithrinfa Bwthyn Bute yn gweithio gyda meithrinfeydd preifat lleol (Meithrinfa Sant Aubin a Meithrinfa Hazelhurst) i ddarparu ‘gofal cofleidiol’. Ni fyddai’r cynnig yn effeithio ar y trefniant hwn.

Byddai **Cynnig 2** yn arwain at 96 lle meithrin cyfrwng Saesneg rhan-amser yn Ysgol Gynradd Cogan. Mae hyn 4 lle yn llai nag sydd ar gael yn awr yn Ysgol Feithrin Cogan. Fodd bynnag, mae hyn yn ddigon i gwrdd â’r galw yn yr ardal leol (gweler tabl 2 yn yr adran dderbyniadau isod). Caiff unrhyw ddarparwr cofrestredig lleol ymateb i’r ymgynghoriad. Bydd y ddogfen ymgynghori hon ar gael i sefydliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar eraill, yn cynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector. Câi unrhyw adborth ei ystyried fel rhan o adroddiad yr ymgynghoriad.

## Derbyniadau

**Ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin yn ardal Penarth a’r cyffiniau**

Dangosir gwybodaeth am ysgolion cynradd a meithrin lleol yn y tabl isod. Dangosir gormod o leoedd ag arwydd minws (-). Dangosir mwy na 10% o leoedd yn ormod neu’n rhy ychydig mewn oren.

| Tabl 2 – Data am ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin sy'n gwasanaethu ardal Penarth a'r cyffiniau (cywir hyd fis Gorffennaf 2021) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Math** | **Iaith** | **Nifer derbyniadau. (cynradd)** | **Capasiti Cynradd** | **NOR Cynradd presennol** | **Dros ben (%)** | **Lleoedd Meithrin (Rhan-amser)** | **NOR Meithrin presennol** | **Dros ben (%)** |
| **Cynradd Albert** | Cymunedol | Saesneg | 55 | 385 | 382 | 0.78% | 72 | 71 | 1.39% |
| **Meithrinfa Bwthyn Bute** | Cymunedol | Saesneg | N/A | N/A | N/A | N/A | 96 | 84 | 12.5% |
| **Meithrinfa Cogan** | Cymunedol | Saesneg | N/A | N/A | N/A | N/A | 100 | 62 | 38% |
| **Cynradd Cogan** | Cymunedol | Saesneg | 30 | 210 | 206 | 1.9% | N/A | N/A | N/A |
| **Cynradd Evenlode** | Cymunedol | Saesneg | 60 | 420 | 414 | 1.43% | N/A | N/A | N/A |
| **Cynradd Fairfield** | Cymunedol | Saesneg | 45 | 315 | 302 | 4.13% | 60 | 28 | 53.33% |
| **Cynradd Llandochau** | Cymunedol | Saesneg | 30 | 210 | 220 | -4.76% | 30 | 30 | 0% |
| **Ysgol Pen Y Garth** | Cymunedol | Cymraeg | 60 | 420 | 334 | 20.48% | 76 | 60 | 21.05% |
| **Ysgol Gynradd St Joseff RC** | Gwirfoddol a gynorthwyir | Saesneg | 30 | 210 | 196 | 6.67% | 48 | 28 | 41.6% |
| **Ysgol Gynradd Sili** | Cymunedol | Saesneg | 50 | 350 | 343 | 2% | 64 | 64 | 0% |
| **Ysgol Gynradd Victoria** | Cymunedol | Saesneg | 60 | 420 | 444 | -5.71% | 90 | 64 | 28.88% |

Mae gan fwyafrif yr ysgolion cynradd ym Mhenarth a'r cyffiniau lai na 10% o leoedd dros ben neu maent yn mynd dros eu capasiti o lai na 10%. Yr eithriad yw Ysgol Pen-Y-Garth, yr unig ysgol gyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu Penarth a'r ardal ehangach (20.48% o leoedd dros ben).

Mae gan nifer o ysgolion meithrin ym Mhenarth a'r cyffiniau fwy na 10% o leoedd dros ben. Awgryma Tabl 2 na fyddai tynnu 4 lle rhan-amser o ganlyniad i gynnig 2 (pe câi ei weithredu) yn cael effaith negyddol sylweddol ar y gallu lleol i gwrdd â'r galw am leoedd meithrin.

**Trosglwyddiad lleol o'r Meithrin i'r Cynradd**

**Ysgol Feithrin Bwthyn Bute**

Mae Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yn rhoi blaenoriaeth o ran derbyn i'r disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Evenlode. Dengys y tabl isod i ba ysgolion cynradd y mae disgyblion Meithrinfa Bwthyn Bute wedi trosglwyddo dros y tair blynedd ddiwethaf.

**Tabl 3 – Trosglwyddo o Ysgol Feithrin Bwthyn Bute i ysgolion cynradd lleol**

| Ysgol | Medi 2019 | Medi 2020 | Medi 2021 |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Albert | | 3 (3.94%) | 2 (3.63%) |
| Ysgol Gynradd Ynys y Barri | 1 (1.72%) | | |
| Ysgol Gynradd Tregatwg | | 2 (2.63%) | |
| Ysgol Gynradd Cogan | | 1 (1.31%) | |
| Ysgol Gynradd Dinas Powys | | 1 (1.31%) | |
| Addysg ddewisol yn y cartref | 1 (1.72%) | | |
| Ysgol Gynradd Evenlode | 46 (79.31%) | 46 (60.52%) | 46 (83.63%) |
| Ysgol Gynradd Fairfield | 9 (15.51%) | 8 (10.52%) | 2 (3.63%) |
| Ysgol Gynradd Llandochau | | 1 (1.31%) | |
| Allan o'r sir | | 1 (1.31%) | |
| Wedi symud | | 3 (3.94%) | 1 (1.81%) |
| Ysgol Gynradd Romilly | | 1 (1.31%) | |
| Ysgol Gynradd St Joseff | | 1 (1.31%) | |
| Ysgol Gynradd Sili | | 2 (2.63%) | 2 (3.63%) |
| Ysgol Gynradd Victoria | | 5 (6.57%) | 1 (1.81%) |
| Westbourne | | 1 (1.31%) | |
| Ysgol Pen Y Garth | | | 1 (1.81%) |
| Ysgol Y Deri | 1 (1.72%) | | |
| **Cyfanswm** | 58 | 76 | 55 |

Mae'r uchod yn tynnu sylw at y ffaith fod mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Gynradd Evenlode.

Yr ysgol gyda'r nifer ail fwyaf o dderbyniadau disgyblion o Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yw Ysgol Gynradd Fairfield. Mae nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Feithrin Bwthyn Bute i Ysgol Gynradd Fairfield wedi bod yn lleihau ers i Ysgol Gynradd Fairfield ychwanegu darpariaeth feithrin o fis Ionawr 2018.

**Ysgol Feithrin Cogan**

Mae Ysgol Feithrin Cogan yn rhoi blaenoriaeth o ran derbyn i'r disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Cogan. Dengys y tabl canlynol i ba ysgolion cynradd y mae disgyblion Ysgol Feithrin Cogan wedi trosglwyddo dros y tair blynedd ddiwethaf.

| Tabl 4 – Trosglwyddo o Ysgol Feithrin Cogan i ysgolion cynradd lleol | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Medi 2019** | **Medi 2020** | **Medi 2021** |
| Ysgol Gynradd Albert | | 1 (2.08%) | 1 (2.5%) |
| Ysgol Gynradd Tregatwg | | 1 (2.08%) | |
| Ysgol Gynradd Cogan | 23 (47.91%) | 25 (52.08%) | 25 (62.5%) |
| Ysgol Gynradd Dinas Powys | 1 (2.08%) | | 2 (5%) |
| Ysgol Gynradd Evenlode | 2 (4.16%) | 1 (2.08%) | 1 (2.5%) |
| Ysgol Gynradd Fairfield | 6 (12.5%) | 3 (6.25%) | 2 (5%) |
| Ysgol Gynradd Holton | 1 (2.08%) | 1 (2.08%) | |
| Ysgol Gynradd Parc Jenner | 1 (2.08%) | | |
| Ysgol Gynradd Llandochau | 4 (8.33%) | 6 (12.5%) | 4 (10%) |
| Allan o'r sir | 6 (12.5%) | 7 (14.58%) | 1 (2.5%) |
| Wedi symud | | 1 (2.08%) | |
| Ysgol Gynradd Sant Andras | | 1 (2.08%) | |
| Ysgol Gynradd Sant Joseff | | 1 (2.08%) | 1 (2.5%) |
| Ysgol Gynradd Victoria | 3 (6.25%) | | 2 (5%) |
| Ysgol Y Deri | 1 (2.08%) | | 1 (2.5%) |
| **Cyfanswm** | 48 | 48 | 40 |

Mae'r uchod yn tynnu sylw at y ffaith fod mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Feithrin Cogan yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Gynradd Cogan.

**Niferoedd blaenorol ar gofrestri'r lleoliadau addysgol y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnynt**

| Tabl 5 – NOR blaenorol yn yr ysgolion cynradd a'r ysgolion meithrin y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnynt (data o fis Ionawr PLASC) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Math** | **Iaith** | **Capasiti** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** |
| **Meithrinfa Bwthyn Bute** | Cymunedol | Saesneg | 96 (rhan-amser) | 88 | 87 | 76 | 84 |
| **Ysgol Gynradd Evenlode** | Cymunedol | Saesneg | 420 | 449 | 448 | 447 | 414 |
| **Meithrinfa Cogan** | Cymunedol | Saesneg | 100 (rhan-amser) | 65 | 60 | 73 | 62 |
| **Ysgol Gynradd Cogan** | Cymunedol | Saesneg | 210 | 203 | 206 | 205 | 206 |

Aeth Ysgol Gynradd Evenlode dros ei chapasiti yn 2017-2019. Roedd hyn oherwydd dosbarth ychwanegol a gyflwynwyd i garfan derbyn 2012/13 oherwydd nifer fawr o geisiadau gan ddisgyblion oedd yn byw yn y dalgylch. Mae'r grŵp blwyddyn hwn bellach wedi trosglwyddo i addysg uwchradd ac nid yw'r dosbarth hwn yn cael ei ddarparu mwyach.

Sylwch nad yw'r ffigurau meithrin yn y tabl uchod yn cynnwys disgyblion a dderbyniwyd yng

ngharfan tymor yr haf gan mai ym mis Ionawr y caiff PLASC ei gofnodi. Mae'r ysgolion meithrin fel rheol yn cyrraedd eu capasiti neu yn agos i'r capasiti yn dilyn derbyn carfan tymor yr haf.

**Y niferoedd a ddisgwylir ar gofrestri lleoliadau addysgol y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnynt**

**Tabl 6 – Y galw disgwyliedig am leoedd yn yr ysgolion cynradd a'r ysgolion meithrin y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnynt**

| Ysgol | Math | Iaith | Capasiti | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meithrinfa Bwthyn Bute** | Cymunedol | Saesneg | 96 (rhan-amser) | 92 | 91 | 89 | 91 | 91 |
| **Ysgol Gynradd Evenlode** | Cymunedol | Saesneg | 420 | 412 | 410 | 411 | 409 | 414 |
| **Meithrinfa Cogan** | Cymunedol | Saesneg | 100 (rhan-amser) | 88 | 88 | 88 | 88 | 77 |
| **Ysgol Gynradd Cogan** | Cymunedol | Saesneg | 210 | 202 | 201 | 200 | 199 | 200 |

Pe bai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu, ar sail y ffigurau disgwyliedig uchod ar gyfer y lleoliadau addysgol (tabl 6) byddai 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn ddigon i gwrdd â'r galw disgwyliedig. Cefnogir hyn hefyd gan y nifer blaenorol ar y gofrestr, fel y dangosir yn nhabl 5 a'r capasiti sydd ar gael mewn ysgolion yn yr ardal ehangach (tabl 2).

**Trefniadau derbyn**

Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgolion. Mae'r trefniadau derbyn ym Mro Morgannwg i gyd yn destun adolygiad blynyddol.


Y capasiti ar gyfer cyfnod meithrin Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan fyddai 96 o leoedd rhan-amser.

Ni fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar y nifer derbyn ar gyfer cyfnod cynradd Ysgol Gynradd Evenlode nac Ysgol Gynradd Cogan.

Ni fyddai gan y plant ar y gofrestr yn y cyfnod meithrin hawl awtomatig i barhau eu haddysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn. Byddai angen i'r rhieni wneud cais ar gyfer yr ysgol o'u dewis. Pan fyddai mwy o geisiadau nag oedd o leoedd ar gael yn y dosbarth derbyn, câi'r lleoedd eu dyrannu drwy ddefnyddio meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor sy'n rhoi blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw yn y dalgylch.


**Dalgylchoedd**

Byddai'r dalgylch ar gyfer cyfnod meithrin yr ysgol 3-11 yn adlewyrchu'r dalgylch presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Evenlode.




Ffigur 1 – Y Dalgylch a Gynigir ar gyfer Cyfnod Meithrin Ysgol Gynradd Evenlode

Byddai'r dalgylch ar gyfer cyfnod meithrin yr ysgol 3-11 yn adlewyrchu'r dalgylch presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Cogan.




Ffigur 2 - Y Dalgylch a Gynigir ar gyfer Cyfnod Meithrin Ysgol Gynradd Cogan

## Tir ac Adeiladau

Ceir disgrifiad o gyflwr ac addasrwydd adeiladau Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan, ac Ysgol Gynradd Cogan yn y ddogfen Gwybodaeth Ysgol: **www.valeofglamorgan.gov.uk/nurseryprovisionpenarth**

Gan y byddai Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn aros ar eu safleoedd ac yn eu hadeiladau presennol a heb gynnydd yn eu capasiti presennol, nid oes goblygiadau ar gyfer tir nac adeiladau.

Mae Ysgol Feithrin Bwthyn Bute wedi ei lleoli 0.7milltir o Ysgol Gynradd Evenlode. Ystyrir bod yr adeiladau presennol mewn cyflwr boddhaol a'u bod yn dda o ran addasrwydd. Pe câi'r cynnig hwn ei weithredu, byddai'r ddarpariaeth feithrin yn dal i gael ei darparu yn yr adeilad presennol, gydag Ysgol Gynradd Evenlode yn cael ei rheoli fel ysgol dau safle.

Mae Ysgol Feithrin Cogan wedi ei lleoli 0.2milltir o Ysgol Gynradd Cogan. Ystyrir bod yr adeiladau presennol mewn cyflwr boddhaol a'u bod yn dda o ran addasrwydd. Pe câi'r cynnig hwn ei weithredu, byddai'r ddarpariaeth feithrin yn dal i gael ei darparu yn yr adeilad presennol, gydag Ysgol Gynradd Cogan yn cael ei rheoli fel ysgol dau safle.

Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1.362 miliwn fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain i dalu am ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Pe câi'r cynigion eu cymeradwyo, byddai'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i adleoli'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode i un safle. Byddai'r Cyngor yn cynnal asesiad dichonolrwydd llawn a byddai unrhyw gynlluniau yn destun ymarferiad ymgynghori ar wahân fel rhan o'r broses gynllunio.

## Cyllid

**Cyllid Cyfalaf**

Ni fyddai goblygiadau cyfalaf o ganlyniad i'r ddau gynnig.

Fodd bynnag, mae £1.362 miliwn wedi ei gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain i dalu am ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Pe câi'r cynigion eu cymeradwyo, byddai'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i adleoli'r darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode i un safle. Byddai'r Cyngor yn cynnal asesiad dichonolrwydd llawn a byddai unrhyw gynlluniau yn destun ymarferiad ymgynghori ar wahân fel rhan o'r broses gynllunio.

**Cyllid Refeniw**

Cyllideb 2021/22 ar gyfer Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yw £286,292, sy'n gymaint â £6,983 y disgybl (FTE). Mae swm y cyllid fesul disgybl yn sylweddol uwch na'r cyllid cyfartalog y disgybl ar draws yr holl ysgolion cynradd oedd yn £3,804 yn 2021/22. Mae'r cyllid fesul disgybl yn uwch yn gyffredinol mewn ysgolion meithrin annibynnol oherwydd costau'r pennaeth a chostau sefydlog eraill sy'n cael eu taenu dros nifer bychan o ddisgyblion.

Mae Ysgol Gynradd Evenlode ar hyn o bryd yn derbyn y lefel isaf o gyllid y disgybl ar draws holl

ysgolion y Fro (£3,252 yn 2021/22). Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg darpariaeth feithrin. Yn 2021/22 derbyniodd Ysgol Gynradd Cogan £4,071 o gyllid y disgybl.

Pe câi'r cynigion eu gweithredu, byddai Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ill dwy yn derbyn cyllideb unigol yn cynnwys dyraniadau ar gyfer y cyfnod meithrin. Gan fod y rhan fwyaf o gyllid ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr, byddai'r cynigion yn gwella sefyllfa'r gyllideb yn gyffredinol i Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan.

Mae'r fformiwla cyllido yn cael ei yrru gan y cyllid fesul disgybl a nifer o ddyraniadau lwmp swm i bob ysgol. Ar y sail honno byddai'r arbediad fformiwla drwy uno Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode yn £70,000 yn seiliedig ar ddileu lwfansau lwmp swm. Cyllideb Ysgol Gynradd Evenlode am 2021/22 yw £1,346,511 a chyllideb Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yw £286,292 (sy'n rhoi cyfanswm o £1,632,803). Y gyllideb gyfunol a geid drwy uno Ysgol Feithrin Bwthyn Bute gydag Ysgol Gynradd Evenlode fyddai £1,562,803 ar gyfraddau cyllido 2021/22.

Byddai arbediad y fformiwla gyllido drwy uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan yn £70,000 yn seiliedig ar ddileu lwfansau lwmp swm. Cyllideb Ysgol Gynradd Cogan am 2021/22 yw £838,705 a chyllideb Ysgol Feithrin Cogan yw £280,829 (sy'n rhoi cyfanswm o £1,119,534). Y gyllideb gyfunol a geid drwy uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan fyddai £1,049,934 ar gyfraddau cyllido 2021/22.

Byddai'r cynigion yn golygu gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol ar draws yr holl ysgolion. Mae ysgolion mawr hefyd ar y cyfan yn gallu sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion maint ac efallai y byddai un gyllideb yn haws ei rheoli, e.e. cyfrif am wario ar gynnal a chadw un safle fyddai o fudd i'r cyfnodau meithrin a chynradd o gymharu â gweinyddu dwy gontract wahanol.

## Adnoddau Dynol

Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi llywodraethwyr, y pennaeth a staff yr ysgol yn llawn gydag unrhyw faterion yn ymwneud â chyflogaeth. Mae gan yr ysgol fynediad at bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, yn cynnwys polisïau recriwtio. Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir yn digwydd gyda'r cyflogeion i gyd ynghylch yr holl faterion yn ymwneud â newid lleoliad eu gweithle.

Byddai staff Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn trosglwyddo i fod dan reolaeth cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno.

Byddai cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn gyfrifol am ddiwygio eu strwythurau staffio i adlewyrchu ychwanegu'r cyfnod meithrin. Ni ddisgwylir y byddai yna unrhyw ddiswyddiadau gorfodol o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, byddai unrhyw newidiadau a gynigid i'r staffio yn destun ymgynghoriad llawn gyda'r staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen.

## Cludiant a threfniadau teithio dysgwyr

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion yn yr oed ysgol statudol sy'n byw ymhellach na phellter cerdded oddi wrth yr ysgol briodol agosaf, yn unol â 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cludiant ysgol am ddim ar gyfer plant oedran meithrin ac eithrio’r rheiny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi’r Cyngor ynghylch cludiant plant i’r ysgol nac o’r ysgol.

Gan y byddai’r cyfnodau meithrin yn aros ar eu safleoedd presennol gyda’u capasiti cyfredol, ni ragwelir goblygiadau ar gyfer cludiant na threfniadau teithio dysgwyr.

# Ystyriaethau Eraill

## Manteision addysgol posibl y cynnig hwn o gymharu â'r sefyllfa bresennol

- Un drefn lywodraethu ac atebolrwydd, gydag un pennaeth a chorff llywodraethu â'r cyfrifoldeb am bob cyfnod o addysg ym mhob ysgol gynradd.
- Gobaith am fwy o gyfleoedd datblygu proffesiynol drwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod o addysg gynradd.
- Un set o bolisïau ar draws pob grŵp blwyddyn, yn cynnwys meysydd arfer da o'r ysgolion unigol.
- Un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws yr holl gyfnodau.
- Cynhyrchu arbedion refeniw cysylltiedig â chostau cynyddol rhedeg ysgolion meithrin annibynnol, fyddai'n rhyddhau cyllid ychwanegol i mewn i fformiwla cyllido'r ysgolion yn gyffredinol
- Cyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy arbedion maint a gwaith caffael cydgysylltiedig.
- Cyfathrebu mwy syml rhwng y rhieni a'r staff gydag un pwynt cyswllt drwy bob cyfnod o addysg gynradd.

## Anfanteision addysgol posibl y cynnig hwn o gymharu â'r sefyllfa bresennol

- Mae posibilrwydd anesmwytho'r disgyblion a'r staff wrth iddynt ddod yn gyfarwydd â'u trefniadau polisi newydd.
- Colli ethos ysgol fechan wrth i'r capasiti gynyddu. Byddai angen lliniaru hyn drwy reolaeth ofalus gan arweinwyr yr ysgol. Fodd bynnag, gan y byddai'r cyfnodau meithrin yn aros ar eu safleoedd presennol, bychan iawn fyddai anfantais yr effaith hon.

## Peryglon posibl y cynnig hwn a chamau i liniaru'r peryglon a ganfuwyd

**Tabl 7 – Peryglon posibl a chamau lliniaru**

| Perygl | Tebygolrwydd | Effaith | Cam lliniaru |
|---|---|---|---|
| Niferoedd y disgyblion ddim yn dod i fod | Isel | Canolig | Monitro niferoedd disgyblion ar y gofrestr a'r niferoedd a ragwelir yn flynyddol. Cynnal perthynas dda gyda'r ysgol ac ymgysylltu â rhieni yn fuan i sicrhau bod ceisiadau yn dod i law cyn y dyddiadau cau bob blwyddyn. |
| Colli ethos yr ysgol fechan | Isel | Canolig | Dim cynnydd yn y lleoedd yn gyffredinol yn lleol a byddai'r cyfnod meithrin yn aros ar ei safle presennol. |
| Drwgdeimlad rhwng yr ysgolion a unwyd | Canolig | Uchel | Sicrhau bod trefniadau trosglwyddo cadarn yn cael eu rhoi ar waith yn gynnar yn y cynnig. Cynnwys y staff yn y gweithdai dylunio a chynorthwyo'r staff i adeiladu perthynas waith yn fuan yn y broses. |

## Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhelir Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r broses ymgynghori.

Proses yw Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) sy'n edrych ar bolisi neu gynllun i sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn neb ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, tuedd rywiol, a dyletswydd gymdeithasol-economaidd).

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.

## Asesiad Effaith ar y Gymuned

Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymuned i benderfynu ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynnig hwn yn ei chael ar y gymuned leol. Aseswyd y cynnig ar draws nifer o fesurau.

Effaith niwtral fyddai'r cynnig yn debygol o'i chael ar y gymuned leol ar draws 8 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol.

Gellir gweld yr Asesiad Effaith ar y Gymuned yn llawn drwy'r ddolen gyswllt ganlynol:
**www.valeofglamorgan.gov.uk/nurseryprovisionpenarth**

## Cyfraniadau i Les Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor feddwl am effaith hirdymor ei benderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un pwrpas, mae'r Ddeddf yn gosod saith nod Llesiant a phum ffordd o weithio y mae'n rhaid iddynt ddylanwadu ar brosesau penderfynu cyrff cyhoeddus.

Cafodd y cynnig ei werthuso yn nhermau'r ffordd y mae'n cyfrannu at obeithion y Ddeddf, nodau Llesiant a'r ffyrdd o weithio.

Daethpwyd i'r casgliad y byddai'r cynigion hyn yn gymorth i gyflawni gobeithion y Ddeddf drwy gryfhau gwytnwch ariannol yr ysgolion a gwneud gwell cydweithio'n bosibl a pharhad i'r disgyblion ac i'r rhieni a/neu warcheidwaid. Byddai'r cynigion hefyd yn sicrhau trefn gyflenwi a galw fwy effeithlon am leoedd meithrin ar draws Bro Morgannwg fel rhan o strategaeth addysg ehangach y blynyddoedd cynnar i gynorthwyo disgyblion i gyflawni eu potensial.

## Y dewisiadau eraill a ystyriwyd

**Dewis 1: Cadw'r sefyllfa bresennol fel ag y mae**

Byddai Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn parhau i weithredu fel ysgolion meithrin annibynnol gyda chyrff llywodraethu a chyllidebau dirprwyedig ar wahân.

**Pam y cafodd y dewis hwn ei wrthod?**

- Byddai hyn yn arwain at gostau uchel parhaus o redeg meithrinfeydd annibynnol.
- Ni fyddai hyn yn manteisio ar y trefniadau arwain dros dro presennol sy’n ei gwneud yn bosibl i’r cynigion hyn gael eu gweithredu heb ddiswyddiadau gorfodol.
- Ni fyddai hyn yn gyson â’r dull sydd orau gan y Cyngor sef darparu’r model o un ysgol gynradd ar gyfer addysg 3 i 11 mlwydd oed.
- Ni fyddai hyn yn arwain at y manteision o gael darpariaeth feithrin gysylltiedig ag ysgolion cynradd fel yr amlinellwyd ar dudalen 26.

**Dewis 2: Ffedereiddio’r ysgolion dan sylw yn hytrach na dirwyn yr ysgolion meithrin annibynnol i ben.**

Byddai ffedereiddio’r ddwy ysgol yn golygu y byddai’r ysgolion yn aros yn ddau endid cyfreithiol ar wahân gyda chyllidebau, strwythurau staffio a strwythurau gweinyddol gwahanol, ond un corff llywodraethu yn goruchwylio’r ddwy ysgol. Byddai’r ddwy ysgol hefyd yn cael eu harolygu ar wahân.

**Pam y cafodd y dewis hwn ei wrthod?**

- Byddai hyn yn arwain at gostau uchel parhaus rhedeg meithrinfeydd annibynnol.
- Ni fyddai hyn yn arwain at yr holl fanteision cysylltiedig â’r cynigion a amlinellwyd ar dudalen 26 gan y byddai’r ysgolion yn parhau yn endidau cyfreithiol ar wahân.

**Dewis 3: Cau pob ysgol oedd yn cael eu trafod yn y cynigion a sefydlu dwy ysgol gynradd newydd yn darparu addysg feithrin a chynradd.**

Ymgynghori ar gau Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan a sefydlu dwy ysgol gynradd newydd, yn darparu pob cyfnod o addysg gynradd.

**Pam y cafodd y dewis hwn ei wrthod?**

- Y dewis hwn fyddai’n tarfu fwyaf ar y staff, y disgyblion, y rhieni/gofalwyr a’r llywodraethwyr a byddai’n golygu y byddai’r broses o uno yn cymryd mwy o amser i’w gwblhau.
- Byddai angen diddymu pob corff llywodraethol a gallai hyn arwain at golli arbenigedd sylweddol.
- Byddai hyn yn achosi ansicrwydd i’r staff gan y byddai angen i’r cyrff llywodraethu newydd sefydlu strwythurau staffio newydd.
- Cost fwy i gyflawni’r dewis hwn gan y byddai angen ailfrandio’r ysgolion newydd.

**Dewis 4: Ychwanegu meithrinfa newydd at Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn ychwanegol at Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan**

**Pam y cafodd y dewis hwn ei wrthod?**

- Byddai hyn yn arwain at ddarparu gormod o leoedd meithrin ar sail yr hyn a ragwelir ar hyn o bryd
- Byddai hyn yn arwain at gostau uchel parhaus rhedeg meithrinfeydd annibynnol.

# Proses yr Ymgynghoriad Statudol

## Proses yr Ymgynghoriad Statudol

| Tabl 8 – Amlinelliad o broses yr ymgynghoriad statudol | |
|---|---|
| **Camau** | **Disgrifiad** |
| **Cam 1: Datblygu cynnig** | Caiff cynnig cychwynnol ei ddatblygu a'i ystyried gan Gabinet y Cyngor. Mae adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn amlinellu pryd mae'r weithdrefn statudol yn ofynnol. |
| **Cam 2: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Cabinet y Cyngor i ystyried y cynnig a rhoi cymeradwyaeth i ymgynghori.<br><br>Ar 13 Medi 2021, Cabinet y Cyngor i awdurdodi Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad o Ddydd Llun, 20 Medi, hyd Ddydd Gwener, 5 Tachwedd 2021, ar ddau gynnig i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth. |
| **Cam 3: Ymgynghoriad** | Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor. Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol a rhaid caniatáu 42 diwrnod o leiaf i ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, gydag 20 o leiaf o'r rhain yn ddyddiau ysgol. Rhaid hysbysu'r rhanddeiliaid a restrir yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) drwy lythyr/e-bost.<br><br>**Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn cychwyn ar Ddydd Llun, 20 Medi, ac yn dod i ben ar Ddydd Gwener, 5 Tachwedd 2021**. Gweler tudalen 35 am ragor o fanylion sut i ymateb a mynegi eich barn.<br><br>O fewn 13 wythnos i 5 Tachwedd 2021, cyhoeddir adroddiad am yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael os gofynnir. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r ymatebion i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn am y cynigion.<br><br>Ym mis Rhagfyr 2021 bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad yr ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen i'r cam nesaf neu beidio. Os bydd y Cyngor yn penderfynu parhau gyda'r cynigion rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol. |
| **Cam 4: Adroddiad am yr ymateb i'r ymgynghoriad** | Caiff yr adborth a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ei ystyried a datblygir adroddiad am yr ymatebion a'i gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried. |
| **Cam 5: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad am yr ymateb i'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a chymeradwyo cyhoeddi'r cynnig yn ffurf hysbysiad statudol. |
| **Cam 6: Hysbysiad statudol** | Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol ac fel yr amlinellir yn adran 4.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).<br><br>Caiff yr hysbysiad statudol ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a'i osod ym mhrif fynedfa ysgolion neu gerllaw. Dosberthir copïau o'r hysbysiad i'r disgyblion, y rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau'r staff. Caiff yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy'r e-bost. Bydd yr hysbysiad yn egluro manylion y cynigion ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno mynegi gwrthwynebiad i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn cyfnod penodol. |
| **Cam 7: Cyfnod ar gyfer gwrthwynebu** | Mae unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r cynnig yn cael y cyfle i wneud hynny. Rhaid mynegi pob gwrthwynebiad yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost a'i |

| | |
|---|---|
| | anfon at y cynigydd cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod yn cychwyn ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad. |
| **Cam 8: Adroddiad am y gwrthwynebiadau** | Dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 pan fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law **rhaid** i'r cynigydd gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("Adroddiad am y gwrthwynebiadau"). |
| **Cam 9: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Mae'r Cabinet yn ystyried yr Adroddiad am y gwrthwynebiadau er mwyn penderfynu'n derfynol ar y cynnig.<br><br>Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y cynnig. Caiff y Cabinet benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynigion gydag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol y mae wedi eu derbyn. |
| **Cam 10: Llythyr am y penderfyniad** | Cyhoeddir cadarnhad o'r penderfyniad a bydd yr Adroddiad am y gwrthwynebiadau ar gael i randdeiliaid.<br><br>Yn dilyn penderfynu ar y cynigion bydd yr holl bartïon â diddordeb yn cael eu hysbysu am y penderfyniad fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. |

## Dyddiadau allweddol

Caiff adborth o'r ymgynghoriad addysg hwn ei gasglu a'i grynhoi a chyflwynir adroddiad i'r Cabinet. Bydd adroddiad yr ymgynghoriad ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor. Gellir cael copïau hefyd ar gais drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae yna gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu dilyn cyn y gwneir y penderfyniad terfynol Rhestrir y camau hyn isod:

**Tabl 9 – Dyddiadau allweddol y broses**

| Proses statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen yr ymgynghoriad | **20 Medi 2021** |
| Dyddiad cau i sylwadau ynghylch y cynigion | **5 Tachwedd 2021** |
| Adroddiad am yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried gan y Cabinet a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a gwefan y Cyngor | **20 Rhagfyr 2021** |
| Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo, cyhoeddir hysbysiad statudol ac yn ystod yr amser hwnnw gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol | **5 Ionawr 2022** |
| Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol | **2 Chwefror 2022** |
| Penderfyniad y Cabinet ac adroddiad am y gwrthwynebiadau. | **Mawrth 2022** |
| Hysbysiad am y penderfyniad | **Mawrth 2022** |
| Y cynnig yn cael ei weithredu | **Medi 2022** |

Efallai y caiff yr amserlen a gynigir ei newid.

## Cwestiynau a ofynnir yn aml (FAQs)

***Pe caent eu gweithredu beth fyddai'r cynigion yn ei olygu?***
Byddai Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn dod i ben a byddai'r staff a'r disgyblion o'r cyfnodau meithrin yn trosglwyddo i fod dan lywodraeth Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth feithrin yn dal i gael ei darparu yn yr adeiladau presennol gyda'r ddau gynnig.

***Beth yw'r amserlen a fwriedir ar gyfer gweithredu?***
Bwriedir i'r cynigion gael eu gweithredu erbyn mis Medi 2022.

***Sut byddai'r cynigion hyn yn effeithio ar drefniadau derbyn?***
Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgolion. Caiff y trefniadau derbyn i gyd o fewn Bro Morgannwg eu hadolygu'n flynyddol.

Y capasiti ar gyfer cyfnod meithrin Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan fyddai 96 o leoedd rhan-amser. Ni fyddai'r cynigion hyn yn cael effaith ar y nifer derbyn ar gyfer cyfnod cynradd Ysgol Gynradd Evenlode nac Ysgol Gynradd Cogan.

Ni fyddai gan y plant ar y gofrestr yn y cyfnod meithrin hawl awtomatig i barhau eu haddysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn. Byddai angen i'r rhieni wneud cais ar gyfer yr ysgol o'u dewis. Pan fyddai mwy o geisiadau nag oedd o leoedd ar gael yn y dosbarth derbyn, câi'r lleoedd eu dyrannu drwy ddefnyddio meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor sy'n rhoi blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw yn y dalgylch.

***Sut byddai'r cynigion hyn yn effeithio ar y cyrff llywodraethu presennol?***
Byddai staff Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn trosglwyddo i fod dan reolaeth cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno.

Er y byddai cyrff llywodraethu Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu diddymu o fis Medi 2022, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan i ganfod cyfleoedd i lywodraethwyr drosglwyddo er mwyn sicrhau parhad.

Byddai angen i gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan newid eu cylch gorchwyl a'u strwythur i adlewyrchu cynnwys y cyfnod meithrin.

***Oes angen i mi ymateb i'r ddau gynnig?***
Cewch ymateb i un cynnig neu i'r ddau drwy lenwi'r adrannau perthnasol o'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (drwy'r ffurflen neu'r ddolen gyswllt isod). Nid oes angen i chi ymateb i'r ddau os nad oes arnoch eisiau.

Caiff unrhyw gwestiynau pellach a ofynnir yn aml eu hychwanegu at wefan yr ymgynghoriad.

# Cynnwys rhanddeiliaid ac ymateb i'r ymgynghoriad

## Cynnwys rhanddeiliaid yr ysgol yn yr ymgynghoriad

Mae ein proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Gofynnir i amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu sylwadau ar y cynigion hyn.

Cyn i benderfyniadau gael eu gwneud, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â diddordeb fynegi eu sylwadau a'u barn ar y cynigion er mwyn galluogi'r Cabinet i ystyried y materion hyn fel rhan o'u proses o ddod i benderfyniad.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

**Tabl 10 – Rhestr y grwpiau i ymgynghori â hwynt fel rhan o'r broses ymgynghori**

| | |
|---|---|
| Staff (addysgu a heb addysgu) yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan | Cyrff Llywodraethu Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant yn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan | Cyfarwyddwyr Addysg yr Esgobaeth |
| Cynghorau Tref a Chymuned | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg (EYDCP) |
| Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg | Cynghorau lleol |
| Aelodau'r Senedd (AS) / Aelodau Senedd y DU (AS) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol | Comisiynydd y Gymraeg |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg |
| Estyn | Gwasanaeth Addysg ar y cyd Consortiwm Canolbarth y De |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Undebau Llafur |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd lleol | Cyfarwyddwyr Addysg –<br>Yr holl awdurdodau cyfagos |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | |

## Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad

Mae'n bwysig i gynghorau wrth ddod â chynigion gerbron wneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle bo modd, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol. Mae'r Cyngor yn gadarn o'r farn y dylid rhoi'r cyfle i ddisgyblion Ysgol Feithrin Bwthyn Bute, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan fynegi eu barn ynglŷn â'r cynnig hwn.

Bydd y Cyngor yn sicrhau y ceisir barn disgyblion yn ystod y cyfnod ymgynghori, a fydd yn cael ei chynnwys fel rhan o'r adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad llawn ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Fel bob amser, caiff y disgyblion gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad drwy gyfrwng y ffurflen neu'r arolwg ar-lein drwy'r ddolen gyswllt isod.

## Sut y gellwch ddod i wybod mwy a mynegi eich barn

**Dod i wybod mwy**

Gellir gweld y ddogfen hon a gwybodaeth ategol bellach ar wefan Bro Morgannwg: **www.valeofglamorgan.gov.uk/nurseryprovisionpenarth**

Gellir dod o hyd i ddiweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ffrwd **Twitter Cyngor Bro Morgannwg** a thrwy **dudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg.**

Gellwch hefyd gysylltu â ni ar **01446 709828** neu **21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk** am wybodaeth bellach am y cynnig.

**Mynegwch eich barn**

Bydd cyfnod yr ymgynghoriad yn rhedeg o **20 Medi 2021** hyd **5 Tachwedd 2021**. Cewch ymateb i'n cynigion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn. Mae eich sylwadau yn bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gellwch roi gwybod inni.

Cewch:

- Gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein: **https://forms.office.com/r/5Gn5YAHi4m**

  neu

- Gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon i:

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ymgynghoriad Darpariaeth Feithrin Penarth
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd y Cyngor
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Sylwch, os gwelwch yn dda, y dylai'r holl sylwadau a gyflwynir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chod post y person sy'n gwneud y sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 5 Tachwedd 2021**. **Yn anffodus, ni chaiff ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried gan y Cyngor.** Caiff yr holl ymatebion a gyflwynir inni eu hystyried gan y Cabinet cyn iddo benderfynu p'un ai cyhoeddi hysbysiad statudol neu beidio ynglŷn â'r cynigion.

Ni chaiff ymatebion a dderbynnir gan ymgyngoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn eu trin fel gwrthwynebiadau statudol, er y cânt eu hystyried fel rhan o'r adroddiad am yr ymgynghoriad. Byddai gwrthwynebiad statudol yn ffurfio rhan o gyfnod yr hysbysiad statudol, os caiff ei gymeradwyo yn y cam nesaf gan Gabinet y Cyngor. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r hysbysiad yn ystod cam nesaf y broses, os bydd yn mynd ymlaen, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae'r dyddiadau hyn wedi eu hamlinellu ar dudalen 31.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae eich barn yn cyfrif. Dywedwch wrthym beth yr ydych yn ei feddwl am y cynnig drwy:

- gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn: **https://forms.office.com/r/5Gn5YAHi4m**

neu

- ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ac **ychwanegu eich safbwynt chi ar y ffurflen hon**

---

Dychwelwch y ffurflen, os gwelwch yn dda, i'r cyfeiriad post:

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ymgynghoriad Darpariaeth Feithrin Penarth
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd y Cyngor
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 5 Tachwedd 2021. Yn anffodus, ni chaiff ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.**

Ni chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynigion, er y cânt eu hystyried gan y Cyngor wrth wneud ei benderfyniad. Ni ellir cofrestru gwrthwynebiad ond ar ôl i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi.

Sylwch, os gwelwch yn dda, y dylai'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chod post y person sy'n gwneud y sylwadau.

Gellir gofyn am gael gweld unrhyw rai o'r ymatebion a dderbynnir dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth fyddai'n ei gwneud yn bosibl adnabod unigolyn, megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post, yn cael ei dileu.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Eich Enw Llawn:** | | | | | |
| **Cod Post:** | | | | | |
| **Dywedwch wrthym a ydych yn ymateb fel** (ticiwch bob un sy'n berthnasol): | | | | | |
| Rhiant neu Warcheidwad* | | Taid neu Nain* | | Disgybl* | |
| Aelod o Staff* | | Llywodraethwr* | | Preswylydd lleol | |

| | |
|---|---|
| Arall (dywedwch beth) | |

| | |
|---|---|
| ***Dywedwch â pha ysgol yr ydych yn gysylltiedig** | |

**1. Cynnig 1) Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i uno Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode drwy:**

- Newid oedran isaf y disgyblion yn ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 lle meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Evenlode i ddarparu lle ar gyfer y 96 lle meithrin rhan-amser; a
- Dod ag Ysgol Feithrin Bwthyn Bute i ben a throsglwyddo'r holl staff a'r disgyblion yn y cyfnod meithrin i fod dan lywodraeth Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

(Sylwch y byddai'r ddarpariaeth feithrin yn dal i gael ei darparu o'r adeilad presennol).

(Dangoswch eich ymateb isod)

| Ydw | | Nac ydw | | Dim barn y naill ffordd na'r llall | |
|---|---|---|---|---|---|

**Eglurwch pam, os gwelwch yn dda:**

**2. Cynnig 2) Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan drwy:**

- Newid oedran isaf y disgyblion yn ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 lle meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Cogan i ddarparu lle ar gyfer y 96 lle meithrin rhan-amser; a
- Dod ag Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo'r holl staff a'r disgyblion yn y cyfnod meithrin i fod dan lywodraeth Ysgol Cogan o fis Medi 2022.

| |
|---|
| (Sylwch y byddai’r ddarpariaeth feithrin yn dal i gael ei darparu o’r adeilad presennol).<br><br>(Dangoswch eich ymateb isod) |

| Ydw | | Nac ydw | | Dim barn y naill ffordd na’r llall | |
|---|---|---|---|---|---|

| **Eglurwch pam, os gwelwch yn dda:** |
|---|
| |

| **3. Os ydych yn dymuno awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau gwahanol i’r cynigion, disgrifiwch y rhain isod.** |
|---|
| |

| **4. Unrhyw sylwadau eraill?** |
|---|
| |

Diolch i chi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon, os gwelwch yn dda, i Gyngor Bro Morgannwg erbyn **5 Tachwedd 2021 fan bellaf.**

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Os oes arnoch eisiau inni eich hysbysu pan fydd yr adroddiad am yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi drwy’r e-bost neu’r post, rhowch y manylion perthnasol isod, os gwelwch yn dda:**

| **Hoffwn gael fy hysbysu drwy:** (dilëwch fel bo’n briodol ) | E-bost / Post |
|---|---|
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Cyfeiriad post:** | |

# Nodiadau

**Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Bro Morgannwg**

| **Rhyw a Hunaniaeth Rhywedd** | |
|---|---|
| Beth yw eich rhyw? | ☐ Benyw<br>☐ Gwryw<br>☐ Anneuaidd ☐ Gwell gennyf beidio â dweud |
| Ar enedigaeth gawsoch chi eich disgrifio fel? | ☐ Benyw<br>☐ Gwryw<br>☐ Rhyngrywiol<br>☐ Gwell gennyf beidio â dweud |
| **Anabledd** | |
| Ydy eich gweithgareddau pob dydd wedi eu cyfyngu oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, afiechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, am 12 mis o leiaf? | ☐ Ydynt – wedi eu cyfyngu'n fawr<br>☐ Ydynt – wedi eu cyfyngu ychydig<br>☐ Nac ydynt<br>☐ Gwell gennyf beidio â dweud |
| **Oedran** | |
| Beth yw eich dyddiad geni? | |

| **Hunaniaeth Genedlaethol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hunaniaeth Genedlaethol - sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?** | | | | |
| ☐ Cymro | ☐ Sais | ☐ Albanwr | ☐ Gogledd Iwerddon | ☐ Prydeinig |
| ☐ Arall (dywedwch beth) | ☐ Gwell gennyf beidio â dweud | | | |

| **Grŵp Ethnig** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd - sut byddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?** | | | |
| **Gwyn** | | | |
| ☐ Cymro/Sais/Albanwr/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | ☐ Gwyddel | | |
| ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall (dywedwch beth): | | |
| **Grwpiau cymysg / aml ethnigrwydd** | | | |
| ☐ Gwyn a Du Caribïaidd | ☐ Gwyn a Du Affricanaidd | ☐ Gwyn ac Asiaidd | |
| ☐ Unrhyw gefndir ethnig cymysg/lluosog arall (Dywedwch beth, os gwelwch yn dda | | | |
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | | | |
| ☐ Indiad | ☐ o Bacistan | ☐ o Bangladesh | ☐ Tsieineaidd |
| ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (dywedwch beth, os gwelwch yn dda): | | | |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | | | |
| ☐ Affricanaidd | ☐ Caribïaidd | | |
| ☐ Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall (Dywedwch beth, os gwelwch yn dda | | | |
| **Grŵp ethnig arall** | | | |
| ☐ Arab | | | |
| ☐ Unrhyw gefndir ethnig arall (dywedwch beth, os gwelwch yn dda): | | | |
| ☐ Gwell gennyf beidio â dweud | | | |

| Yr Iaith Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiwch eich gallu yn Gymraeg drwy dicio'r blwch/blychau perthnasol isod.** | | | | |
| | **Deall** | **Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| Dim | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sylfaenol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cymwys | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Da | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhugl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Hunaniaeth Rywiol | | |
|---|---|---|
| **Pa un o'r dewisiadau canlynol sy'n disgrifio orau sut yr ydych chi'n meddwl amdanoch eich hun.** | | |
| ☐ Heterorywiol/syth | ☐ Hoyw neu lesbiad | ☐ Deurywiol |
| ☐ Arall | ☐ Gwell gennyf beidio â dweud | |

| Crefydd | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth yw eich crefydd?** | | | |
| ☐ Dim crefydd | ☐ Cristnogaeth (pob enwad) | | ☐ Bwdhydd |
| ☐ Hindŵ | ☐ Iddew | ☐ Mwslim | ☐ Sikh |
| ☐ Unrhyw grefydd arall (dywedwch beth) | | ☐ Gwell gennyf beidio â dweud | |

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | |
|---|---|
| Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu fuoch chi'n feichiog yn y flwyddyn ddiwethaf? | ☐ Ydw/Do<br>☐ Nac ydw/Naddo<br>☐ Gwell gennyf beidio â dweud |
| Ydych chi wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf? | ☐ Do<br>☐ Naddo<br>☐ Gwell gennyf beidio â dweud |

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | |
|---|---|
| Beth yw eich statws priodasol neu bartneriaeth sifil un rhyw cyfreithiol? | ☐ Sengl, sef heb briodi erioed a heb gofrestru mewn partneriaeth sifil un rhyw<br>☐ Wedi priodi ac yn byw gyda gŵr/gwraig<br>☐ Wedi gwahanu ond yn dal yn briod yn gyfreithiol<br>☐ Wedi cael ysgariad<br>☐ Gweddw<br>☐ Mewn partneriaeth sifil un rhyw gofrestredig ac yn byw gyda'ch partner<br>☐ Wedi gwahanu, ond yn dal mewn partneriaeth sifil un rhyw yn gyfreithiol<br>☐ Mewn partneriaeth sifil un rhyw o'r blaen sydd bellach wedi ei diddymu'n gyfreithiol<br>☐ Y partner sy'n dal yn fyw o bartneriaeth sifil un rhyw<br>☐ Gwell gennyf beidio â dweud |